OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 390 (Cy.52)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*25 Chwefror 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 323 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac adrannau 89(1), 91(1) a 93(2) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**2**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**) a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2003

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "apêl" ("*appeal*") yw, mewn perthynas ag—

(a) adran 77 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 12 neu 19 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, penderfyniad ar gais a atgyfeiriwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol, ond nid yw'n cynnwys cais y bernir iddo gael ei atgyfeirio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd rheoliad 13(3) o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**4**); a

(**1**) 1990 p.8; diwygiwyd adran 323 gan adran 18(1) o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 (p.52) a pharagraff 26 o Atodlen 3 iddi.
(**2**) 1990 p.9; mae adran 89(1) yn cymhwyso'r darpariaethau gwneud rheoliadau a gynhwysir yn adran 323 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
(**3**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, ac erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253 (Cy.5)) ac Atodlen 3 iddo.
(**4**) O.S. 1990/1519.

(b) adran 78 neu 208 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 20 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, apêl wedi'i gwneud o dan yr adran honno;

ystyr "apelydd" ("*appellant*") yw, yn achos:

(a) cais a atgyfeiriwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 77 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 12 neu 19 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, y person a wnaeth y cais hwnnw i'r awdurdod cynllunio lleol;

(b) apêl o dan adran 78 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 20 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, y person y gwrthodwyd ei gais, neu y rhoddwyd caniatad, cytundeb neu gymeradwyaeth i'w gais yn ddarostyngedig i amodau neu nas penderfynwyd ar ei gais, gan yr awdurdod cynllunio lleol; ac

(c) apêl o dan adran 208 o'r Ddeddf Gynllunio, y person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan adran 207(1) o'r Ddeddf honno;

ystyr "awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*") yw, mewn perthynas ag:

(a) cais o dan adran 77 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 12 neu 19 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, y corff a ymdriniasai â'r cais pe nas atygyfeirid i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) apêl o dan adran 78 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 20 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, y corff a oedd yn gyfrifol am benderfynu'r cais a achosodd yr apêl; ac

(c) apêl o dan adran 208 o'r Ddeddf Gynllunio, y corff a gyflwynodd yr hysbysiad o dan adran 207(1) o'r Deddf honno;

ystyr "cais" ("*application*") yw, mewn perthynas ag:

(a) adran 77 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 12 neu 19 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, y cais a atgyfeiriwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) adran 78 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 20 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, y cais sy'n destun yr apêl; ac

(c) adran 208 o'r Ddeddf Gynllunio, yr hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol o dan adran 207(1) o'r Ddeddf honno;

mae i "cyfathrebu electronig" yr ystyr a roddwyd i'r term "*electronic communication*" gan adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**5**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf Adeiladau Rhestredig" ("*the Listed Buildings Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

mae cyfeiriadau at adran 12, 19 neu 20 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn cynnwys cyfeiriad at yr adrannau hynny fel y'u cymhwysir gan adran 74(3) o'r Ddeddf honno;

ystyr "y Ddeddf Gynllunio" ("*the Planning Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

mae cyfeiriadau at adran 78 o'r Ddeddf Gynllunio yn cynnwys cyfeiriad at yr adran honno fel y'i cymhwysir i geisiadau am orchymynion cadw coed a wneir o dan y Ddeddf honno;

mae "dogfen" ("*document*") yn cynnwys ffotograff, map neu blan;

ystyr "dyddiad dechrau" ("*starting date*") yw dyddiad:

(a) hysbysiad ysgrifenedig y Cynulliad Cenedlaethol i'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol ei fod wedi cael yr holl ddogfennau sy'n ofynnol i'w alluogi i roi ystyriaeth i'r apêl; neu

(b) hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 4 isod, p'un bynnag yw'r diweddaraf;

(**5**) 2000 p.7.

ystyr "holiadur" ("*questionnaire*") yw dogfen ar ffurf a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdod cynllunio lleol at ddibenion achos o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "hysbysiad perthnasol" ("*relevant notice*") yw, mewn perthynas ag:

(a) cais a atgyfeiriwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 77 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 12 neu 19 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, cais ysgrifenedig gan yr apelydd i'r mater gael ei benderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig; ac

(b) apêl a ddugwyd o dan adran 78 neu 208 o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 20 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr apelydd, sy'n hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o'i ddymuniad i'r apêl gael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig; ac

mae "sylwadau ysgrifenedig" ("*written representations*") yn cynnwys dogfennau ategol.

Cymhwyso'r Rheoliadau

3.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys os, wedi iddynt ddod i rym, bydd apelydd yn rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol yn yr hysbysiad perthnasol o ddymuniad i'r apêl gael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(2) Os na fydd apêl yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig a bydd yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod yn dymuno iddi gael ei phenderfynu ar y sail honno, bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r apêl i unrhyw raddau y caiff y Cynulliad Cenedlaethol eu pennu gan ystyried unrhyw gamau sydd eisoes wedi eu cymryd mewn perthynas â'r apêl.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn peidio â bod yn gymwys i apelau os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi gwybod i'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol y bydd yn rhoi cyfle iddynt fod yn bresennol a chymryd rhan mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol a gynhelir gan berson a benodwyd ganddo at y diben hwnnw.

Hysbysu cael cais

4. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi iddo gael yr hysbysiad perthnasol, roi gwybod yn ysgrifenedig i'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol am:

(a) y dyddiad dechrau;

(b) y cyfeirnod a ddyrannwyd i'r apêl; ac

(c) y cyfeiriad y mae unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol i gael ei anfon iddo.

Hysbysu personau sydd â buddiant

5.—(1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl, er mwyn i'r personau a ganlyn ei gael o fewn 2 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau, i:

(a) unrhyw berson a hysbyswyd neu yr ymgynghorwyd ag ef yn unol â'r Ddeddf Gynllunio, y Ddeddf Adeiladau Rhestredig neu orchymyn datblygu, yn ôl y digwydd, am yr apêl; a

(b) unrhyw berson arall sydd wedi gwneud sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol am yr apêl.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1):

(a) nodi enw'r apelydd a chyfeiriad y safle y mae'r apêl yn berthnasol iddo;

(b) disgrifio'r apêl;

(c) nodi'r materion a hysbyswyd i'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol o dan reoliad 4;

(ch) nodi yr anfonir copïau o unrhyw sylwadau a wnaethpwyd gan unrhyw berson a grybwyllir ym mharagraff (1) i'r Cynulliad Cenedlaethol ac at yr apelydd;

(d) nodi y caiff unrhyw sylwadau o'r fath eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol wrth benderfynu'r apêl oni bai i unrhyw berson a grybwyllwyd ym mharagraff (1) eu tynnu yn ôl o fewn 6 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau; ac

(dd) nodi y bydd yn bosibl i sylwadau ysgrifenedig pellach gael eu hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn iddo eu cael o fewn 6 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau.

Holiadur

6.—(1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chopïo i'r apelydd, er mwyn iddynt eu cael o fewn 2 wythnos o'r dyddiad dechrau:

(a) holiadur wedi'i gwblhau; a

(b) copi o bob un o'r dogfennau y cyfeirir atynt ynddo.

(2) Rhaid i'r holiadur nodi'r dyddiad yr anfonir ef i'r Cynulliad Cenedlaethol arno.

Sylwadau

7.—(1) Bernir mai sylwadau'r apelydd, mewn perthynas â'r apêl, yw'r hysbysiad perthnasol a'r dogfennau sy'n mynd ag ef.

(2) Caiff yr awdurdod cynllunio lleol ddewis trin yr holiadur, a'r dogfennau a anfonwyd gydag ef, fel ei sylwadau mewn perthynas â'r apêl ac, os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol a'r apelydd yn unol â hynny pan fydd yn anfon yr holiadur i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn anfon copi ohono at yr apelydd, yn unol â rheoliad 6.

(3) Os nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn dewis gwneud fel a ddisgrifir ym mharagraff (2), rhaid iddo sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael 2 gopi o'r sylwadau ysgrifenedig pellach hynny o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau.

(4) Rhaid i apelydd sy'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau pellach i'r rheini ym mharagraff (1) anfon 2 gopi o'r sylwadau pellach hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn iddo eu cael o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau.

(5) Rhaid dyddio unrhyw sylwadau a wneir i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraffau (3) a (4) â'r dyddiad yr anfonir hwy i'r Cynulliad Cenedlaethol arno.

(6) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu cael, anfon at yr apelydd gopi o unrhyw sylwadau a anfonwyd iddo gan yr awdurdod cynllunio lleol, a rhaid iddo anfon i'r awdurdod cynllunio lleol gopi o unrhyw sylwadau a anfonwyd iddo gan yr apelydd.

(7) Rhaid i'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol 2 gopi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig sydd gan y naill ar sylwadau'r llall er mwyn iddo eu cael o fewn 9 wythnos o'r dyddiad dechrau a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo eu cael, anfon copi o'r sylwadau pellach hynny i'r parti arall.

(8) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddiystyru gwybodaeth bellach oddi wrth yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol nad yw wedi ei chael o fewn 9 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau oni bai iddo ofyn am yr wybodaeth bellach honno.

Sylwadau Trydydd Parti

8.—(1) Caiff person a hysbyswyd o dan reoliad 5(1), ac sy'n dymuno anfon sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol, wneud hynny ar yr amod bod y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cael o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol: